# Egwyddorion hyfforddi a mentora

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sut y defnyddir hyfforddi a mentora yn dibynnu ar y cyd-destun. Nid oes bwriad i osod model unffurf. Caiff y deg egwyddor hyn, yn seiliedig ar dystiolaeth o waith ymchwil ac ymgynghori, eu hargymell fel sail ar gyfer rhaglenni hyfforddi mewn ysgolion ac i helpu cynyddu effaith datblygiad proffesiynol parhaus ar ddysg myfyrwyr.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Mae hyfforddi a mentora effeithiol yn cynnwys:

**sgwrs sy'n dysgu** sgwrs broffesiynol strwythuredig, wedi'i gwreiddio mewn tystiolaeth o ymarfer y dysgwr proffesiynol, sy'n mynegi credoau ac arferion sy'n bodoli i alluogi i fyfyrio arnynt;

**perthynas ystyriol** datblygu ymddiriedolaeth, rhoi sylw mewn modd parchus a sensitif i'r emosiynau pwerus sydd ynghlwm â dysgu proffesiynol dwfn;

**cytundeb dysgu** sefydlu hyder ynghylch ffiniau'r berthynas drwy gytuno ar reolau cyffredin a'u dilyn sy'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd o ran pwerau ac atebolrwydd;

**cyfuno cymorth gan gyd-ddysgwyr proffesiynol ac arbenigwyr** cydweithio â chydweithwyr i gynnal ymrwymiad i ddysgu a chysylltu mewnbwn arbenigol ag arfer bob dydd; gofyn am arbenigedd arbenigol i ehangu sgiliau a gwybodaeth ac i fodelu arfer da;

**hunan gyfeiriad sy'n tyfu** proses esblygol lle mae'r dysgwr yn cymryd rheolaeth gynyddol dros ei ddatblygiad proffesiynol wrth i sgiliau, gwybodaeth a hunan ymwybyddiaeth gynyddu;

**gosod nodau heriol a phersonol** nodi nodau sydd wedi'u gwreiddio mewn dyheadau i ddisgyblion sy'n adeiladu ar yr hyn maent yn ei wybod ac a allant wneud eisoes tra hefyd yn rhoi sylw i flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau personol;

**deall pam bod dulliau gwahanol yn gweithio** datblygu dealltwriaeth o'r rhesymeg dros ddulliau newydd fel y gellir datblygu ymarfer a theori ochr yn ochr a'u haddasu ar gyfer gwahanol gyd-destunau;

**cydnabod y buddion i fentoriaid a hyfforddwyr** cydnabod y ddysg broffesiynol y mae mentoriaid a hyfforddwyr yn ei chael o'r cyfle i fentora neu hyfforddi a'u defnyddio i fodelu dysg broffesiynol;

**arbrofi ac arsylwi** creu amgylchedd dysgu sy'n cefnogi cymryd risg ac arloesedd ac yn annog dysgwyr proffesiynol i chwilio am dystiolaeth uniongyrchol o ymarfer a'u dadansoddi;

**defnyddio adnoddau yn effeithiol** gwneud a defnyddio amser ac adnoddau eraill yn greadigol i amddiffyn a chynnal dysgu, gweithredu a myfyrio yn ddyddiol.

curee

www.curee.co.uk

| Mentora | Hyfforddi Arbenigol | Hyfforddi Cydweithiol (cyd-hyfforddi) |
|---|---|---|
| **Mae mentora yn broses strwythuredig, gyson ar gyfer cefnogi dysgwyr proffesiynol drwy drawsnewidiadau gyrfa sylweddol.** | **Hyfforddi arbenigol yw proses strwythuredig, gyson ar gyfer galluogi i ddatblygu agwedd benodol ar arfer dysgwr proffesiynol.** | **Cyd-hyfforddi yw proses strwythuredig, gyson rhwng dau weithiwr proffesiynol neu fwy i'w galluogi i ymgorffori gwybodaeth a sgiliau newydd o ffynonellau arbenigol mewn arfer dyddiol.** |
| **Pam?** | | |
| Defnyddir **Mentora ar gyfer Sefydlu** i helpu dysgwyr proffesiynol sy'n ymuno ag ysgol newydd. I Athrawon Newydd Gymhwyso, bydd hyn hefyd yn cynnwys sefydlu i'r proffesiwn cyfan.<br><br>Defnyddir **Mentora ar gyfer Cynnydd** i helpu dysgwyr proffesiynol i ymateb i heriau'r rôl newydd, i ddeall y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r rôl a'r gwerthoedd a ddaw gyda hi.<br><br>Defnyddir **Mentora ar gyfer Herio** i alluogi dysgwyr proffesiynol i fynd i'r afael â materion o bwys a all atal cynnydd. | **Defnyddir hyfforddi arbenigol** gan ysgolion ac athrawon i:<br>• adolygu a mireinio arfer sefydledig<br>• datblygu ac ymestyn proffil addysgu a dysgu<br>• cyflwyno ac arbrofi gyda strategaethau addysgu a dysgu amgen<br>• cefnogi'r gwaith o ddatblygu, ar draws adran neu ysgol, diwylliant o fod yn agored e.e. cymorth i'r naill a'r llall a beirniadaeth o arfer proffesiynol. | **Defnyddir cyd-hyfforddi** gan ysgolion ac athrawon i gefnogi a chynnal partneriaethau gwirfoddol, strwythuredig lle mae pob cyfranogwr yn cysylltu mewnbwn arbenigol ag arfer dyddiol.<br><br>Mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu, ar draws adran neu ysgol, ddiwylliant o fod yn agored e.e. cymorth i'r naill a'r llall a beirniadaeth o arfer proffesiynol. Mae hefyd yn darparu paratoad da ar gyfer sgiliau a rolau hyfforddi mwy arbenigol. |
| **Pwy?** | | |
| **Mae mentoriaid yn gydweithwyr profiadol** gyda gwybodaeth am ofynion y rôl. Mae ganddynt fynediad brocer i amrywiaeth o gyfleoedd dysgu hunan gyfeirio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r person cyfan. Dewisir mentoriaid ar sail gwybodaeth briodol o anghenion a chyd-destun gwaith y dysgwr proffesiynol.<br><br>Dysgwr proffesiynol yw rhywun sy'n mynd i'r afael â chyfnod newydd neu heriol yn ei ddatblygiad proffesiynol sy'n chwilio am fentora neu sy'n cael ei gyfeirio ato. | **Hyfforddwyr arbenigol** yw cydweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i nodau dysgwyr proffesiynol. Maent yn galluogi dysgwyr proffesiynol i gymryd rheolaeth dros eu dysg eu hunain drwy holi a chymorth nad yw'n barnu. Gallai'r hyfforddwr fod o'r un sefydliad neu o rywle arall (e.e. prifysgol). Fel arfer, y dysgwyr proffesiynol ei hun sy'n dewis y hyfforddwyr.<br><br>Dysgwr proffesiynol yw rhywun sy'n mynd i'r afael â her addysg a dysgu neu arwain benodol sy'n chwilio am hyfforddi neu y cynigir hyfforddi iddo. | **Cyd-hyfforddwyr** yw dysgwyr proffesiynol sy'n ymrwymedig i ddysgu dwyochrog ac i ddarparu cymorth nad yw'n barnu i'w gilydd yn seiliedig ar dystiolaeth o'u harfer eu hunain. Mae cyd-hyfforddwyr yn chwilio am fewnbwn arbenigol fel sail i'w hyfforddi. Gellir ei ddarparu gan drydydd parti e.e. drwy gwrs, ymgynghorwr, sesiwn arddangos, adnoddau yn seiliedig ar destun.<br><br>Mae cyd-hyfforddwyr yn cymryd rôl yr hyfforddwyr a'r dysgwr proffesiynol, fel arfer bob yn ail. Mae partneriaid cyd-hyfforddi yn dewis ei gilydd fel arfer. |


| Mentora | Hyfforddi Arbenigol | Hyfforddi Cydweithiol (cyd-hyfforddi) |
|---|---|---|
| **Beth?** | | |
| Mae **mentora** yn cynnwys gweithgareddau sy'n hyrwyddo a gwella trawsnewidiadau effeithiol rhwng rolau proffesiynol, gan gynnwys:<br>1. nodi nodau dysgu a chefnogi cynnydd<br>2. datblygu rheolaeth dysgwyr dros eu dysg<br>3. gwrando'n astud<br>4. modelu, arsylwi, mynegi a thrafod arfer i godi ymwybyddiaeth<br>5. profiadau dysgu a rennir e.e. drwy arsylwi neu fideo<br>6. darparu arweiniad, adborth a, lle bo angen, cyfeiriad<br>7. adolygu a chynllunio<br>8. asesu, arfarnu ac achredu arfer<br>9. mynediad brocer i amrywiaeth o gymorth. | Mae **hyfforddi arbenigol** yn cynnwys gweithgareddau sy'n hyrwyddo a gwella'r gwaith o ddatblygu agwedd benodol ar ymarfer addysg a dysgu neu arwain, gan gynnwys:<br>1. cymorth i egluro nodau dysgu<br>2. atgyfnerthu rheolaeth dysgwyr dros eu dysg<br>3. gwrando'n astud<br>4. modelu, arsylwi, mynegi a thrafod arfer i godi ymwybyddiaeth<br>5. profiadau dysgu a rennir e.e. drwy arsylwi neu fideo<br>6. cynllunio dysgu ac addysgu neu arweinyddiaeth a rennir, gyda chymorth cwestiynau<br>7. adolygu a chynllunio â chymorth<br>8. myfyrio a dibriffio profiadau a rennir. | Mae **cyd-hyfforddi yn cynnwys gweithgareddau** sy'n hyrwyddo a gwella arfer myfyriol gan gynnwys:<br>1. datblygu cyd-ddealltwriaeth o nodau penodol<br>2. cynnal rheolaeth dysgwyr dros eu dysg<br>3. gwrando'n astud<br>4. arsylwi, mynegi a thrafod arfer i godi ymwybyddiaeth<br>5. profiadau dysgu a rennir e.e. drwy arsylwi neu fideo<br>6. cynllunio dysgu ac addysg neu arweinyddiaeth a rennir, gyda chymorth cwestiynau dwyochrog<br>7. cynllunio dwyochrog<br>8. dadansoddi profiadau dysg, tystiolaeth, ymchwil neu enghreifftiau eraill o arfer. |
| **Ble?** | | |
| **Mae mentora fel arfer yn digwydd** yn ysgol y dysgwr proffesiynol, yn y gweithle ac mewn mannau tawel sy'n caniatáu myfyrio cyfrinachol. I athrawon, yn enwedig athrawon dan hyfforddiant, mae hefyd yn digwydd yn ystafell ddosbarth pobl eraill er mwyn galluogi arsylwi ar gyfer dysgu. | **Mae hyfforddi arbenigol fel arfer** yn digwydd yng ngweithle y dysgwr – ac mewn mannau tawel sy'n caniatáu myfyrio cyfrinachol – er mwyn hwyluso arsylwi a myfyrio am eu harfer eu hunain a'u harbrofion gyda dulliau newydd. | **Mae cyd-hyfforddi yn digwydd** yng ngweithle'r dysgwyr proffesiynol ac mewn mannau tawel sy'n caniatáu myfyrio cyfrinachol. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys cyd-hyfforddwyr yn arsylwi gwaith ei gilydd a myfyrio ar weithgareddau eu hunain a'u cyd-hyfforddwyr. |
| **Pryd?** | | |
| **Mae mentora yn ddefnyddiol** i ymarferwr ar ddechrau ei yrfa, ar adegau o newid sylweddol i yrfa neu mewn ymateb i heriau sylweddol penodol. | **Mae hyfforddi arbenigol yn ddefnyddiol** i ymarferydd, ar unrhyw adeg yn ei yrfa, i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach a mwy soffistigedig o ddulliau newydd a hen. | **Mae cyd-hyfforddi yn ddefnyddiol** i ymarferydd, ar unrhyw adeg yn ei yrfa, yn dilyn mewnbwn arbenigol a phryd bynnag y mae dysgwyr proffesiynol yn ceisio adolygu a gwella arfer. |

| Mentoriaid | Hyfforddwyr Arbenigol | Cyd-hyfforddwyr |
|---|---|---|
| **Sgiliau ar gyfer hyfforddi a mentora – mae mentoriaid a hyfforddwyr yn dysgu'r canlynol:** | | |
| 1. **uniaethu'n sensitif â dysgwyr** a gweithio drwy brosesau y cytunwyd arnynt i feithrin ymddiriedaeth<br>2. **modelu arbenigedd** mewn arfer neu drwy sgwrs<br>3. **cysylltu arweiniad â thystiolaeth** o arfer ac ymchwil<br>4. **mynediad brocer i amrywiaeth o gymorth** i fynd i'r afael â nodau gwahanol o'r dysgwr proffesiynol<br>5. **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer proffesiynol a gwneud hyn yn eglur<br>6. **darparu gwybodaeth ac adborth** sy'n galluogi dysgu o gamgymeriadau a llwyddiant<br>7. **meithrin rheolaeth dysgwr** dros ei ddysg broffesiynol<br>8. **defnyddio cwestiynau agored** i godi ymwybyddiaeth, archwilio credoau, codi ymwybyddiaeth, datblygu cynlluniau, deall canlyniadau ac archwilio ac ymrwymo i atebion<br>9. **gwrando'n astud gyda hunan ymwybyddiaeth**:<br>• rhoi sylw i dawelwch a'i werthfawrogi<br>• canolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei ddweud<br>• defnyddio iaith gadarnhaol y corff i arwyddo sylw<br>• ailchwarae'r hyn a ddywedwyd gan ddefnyddio'r un geiriau i atgyfnerthu a gwerthfawrogi meddwl<br>10. **cysylltu arfer ag asesiad**, achredu fframweithiau a thystiolaeth. | 1. **uniaethu'n sensitif â dysgwyr** a gweithio drwy brosesau y cytunwyd arnynt i feithrin ymddiriedaeth a hyder<br>2. **modelu arbenigedd** mewn arfer neu drwy sgwrsio<br>3. **hwyluso mynediad i ymchwil** a thystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu arfer addysgeg<br>4. **teilwra gweithgareddau mewn partneriaeth** â dysgwr proffesiynol<br>5. **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer dysgwr proffesiynol a'i wneud yn amlwg<br>6. **darparu gwybodaeth** sy'n galluogi i ddysgu o gamgymeriadau a llwyddiannau<br>7. **hwyluso annibyniaeth sy'n tyfu** mewn dysg broffesiynol o'r cychwyn cyntaf<br>8. **defnyddio cwestiynau agored** i godi ymwybyddiaeth, archwilio credoau, annog dysgwyr i lunio eu cynlluniau eu hunain, deall canlyniadau a datblygu atebion<br>9. **gwrando'n astud a gyda hunan ymwybyddiaeth**:<br>• rhoi sylw i dawelwch a'i werthfawrogi<br>• canolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei ddweud<br>• defnyddio iaith gadarnhaol y corff i arwyddo sylw<br>• ailchwarae'r hyn sy'n cael ei ddweud gan ddefnyddio'r un geiriau i atgyfnerthu a gwerthfawrogi meddwl<br>10. **sefydlu clustogfeydd** rhwng hyfforddi a pherthnasau ffurfiol eraill. | 1. **uniaethu'n sensitif â dysgwyr** a gweithio trwy brosesau y cytunwyd arnynt i feithrin ymddiriedaeth a hyder<br>2. **defnyddio adnoddau arbenigol** fel sail i ddysg<br>3. **defnyddio tystiolaeth** o ymchwil ac arfer i siapio datblygiad<br>4. **deall nodau'r** cyd-hyfforddwr<br>5. **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer ei gilydd, gwneud hyn yn amlwg a'i ddehongli ar y cyd<br>6. **darparu gwybodaeth** sy'n galluogi i ddysgu o gamgymeriadau a llwyddiant<br>7. **dysgu dwyochrog** gydag ymrwymiad a gonestrwydd<br>8. **defnyddio cwestiynau agored** i godi ymwybyddiaeth, datgelu credoau a galluogi dysgwyr proffesiynol i fyfyrio arnynt<br>9. **gwrando'n astud**:<br>• rhoi sylw i dawelwch a'i werthfawrogi<br>• canolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei ddweud<br>• defnyddio iaith astud y corff i arwyddo sylw<br>• ailchwarae naratif gan ddefnyddio geiriau'r dysgwr proffesiynol i wirio ystyr a/neu werthfawrogi eu meddwl<br>10. **gosod perthnasau sydd eisoes yn bodoli i'r naill ochr** yn seiliedig ar brofiad, hierarchaeth, pŵer neu gyfeillgarwch. |

| Mentoriaid | Hyfforddwyr Arbenigol | Cyd-hyfforddwyr |
|---|---|---|
| **Mae dysgwyr proffesiynol yn datblygu eu gallu i wneud y canlynol:** | | |
| • **ymateb yn rhagweithiol i brofiad wedi'i fodelu** i gael ac addasu gwybodaeth newydd<br>• **gofyn ac ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau** ac awgrymiadau gan y mentor<br>• **cymryd rôl gynyddol actif** wrth lunio eu rhaglen ddysgu eu hunain<br>• **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer eu hunain a'u mentor a gwneud hyn yn eglur<br>• **meddwl a gweithredu'n onest** i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth. | • **gofyn ac ymateb yn rhagweithiol i brofiad arbenigol** i gael ac addasu gwybodaeth newydd<br>• **trafod arfer a chysyniadau craidd** yn broffesiynol gyda'r hyfforddwr gan ofyn ac ateb cwestiynau sy'n pryfocio<br>• **deall eu hanghenion a nodau dysgu eu hunain** a datblygu strategaethau sy'n ymateb i'r rhain drwy ddeialog â'u hyfforddwr arbenigol<br>• **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer eu hunain a'u hyfforddwr a gwneud hyn yn eglur. | • **gofyn am arbenigedd arbennig** ac yn ymateb yn rhagweithiol iddo i gael ac addasu gwybodaeth newydd<br>• **trafod arfer a chysyniadau craidd** yn broffesiynol gan ofyn ac ateb cwestiynau profoclyd<br>• **deall eu hanghenion a nodau dysgu eu hunain** a datblygu strategaethau sy'n ymateb i'r rhain drwy sgwrsio â'u cyd-hyfforddwr<br>• **arsylwi, dadansoddi a myfyrio** ar arfer eu hunain a'r hyfforddwr a gwneud hyn yn eglur. |

Mae **mentora** yn broses strwythuredig ar gyfer cefnogi dysgwyr proffesiynol drwy drawsnewidiadau sylweddol mewn gyrfa.

**Mae mentor** yn **gydweithiwr a berchir**. Mae mentoriaid yn gydweithwyr profiadol gyda gwybodaeth am ofynion ffurfiol gyda mynediad brocer i amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu hunan gyfeirio i helpu i ddatblygu'r person cyfan dros amser.




Mae **hyfforddi arbenigol** yn broses strwythuredig ar gyfer galluogi datblygu agwedd benodol ar ymarfer dysgwr proffesiynol.

Mae **hyfforddwyr arbenigol yn** gydweithwyr proffesiynol gyda dealltwriaeth ac arbenigedd sy'n berthnasol i nodau dysgwyr proffesiynol. Maent yn galluogi dysgwyr proffesiynol i gymryd rheolaeth dros ddysgu drwy holi a chymorth nad yw'n barnu.

**Cyd-hyfforddi** yw proses strwythuredig, gyson rhwng dau weithiwr proffesiynol neu fwy i'w galluogi i ymgorffori gwybodaeth a sgiliau newydd o ffynonellau arbenigol mewn arfer o ddydd i ddydd.

**Cyd-hyfforddwyr** yw dysgwyr proffesiynol sy'n ymrwymedig i ddysgu dwyochrog ac i ddarparu cymorth nad yw'n barnu ar gyfer dysg ei gilydd yn seiliedig ar dystiolaeth o'u harfer eu hunain.

ISBN digidol 978 1 4734 1259 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21824